

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

60/2017

DYDDIAD CYHOEDDI:

26 MEDI 2017

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

Cam 3, Haf 2017

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru: Cam 3, Haf 2017

Anthony Lydall a Laura Nesbitt, Strategic Research and Insight



Barn yr ymchwilydd ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Dr Robert Lewis, Pennaeth Ymchwil Twristiaeth, robert.lewis@llyw.cymru

Adran: Adran Gwyddoniaeth, yr Economi a Thrafnidiaeth

Canolfan QED

Ystad Trefforest

Pontypridd

Rhondda Cynon Taf

CF37 5YR

Ffôn: 0300 061 6026

ISBN: 978-1-78859-633-6

26 Medi 2017

© Hawlfraint y Goron 2017



Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan Fersiwn 3.0 Trwydded Agored y

Llywodraeth, ac eithrio lle nodir fel arall.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Cynnwys

Cam 3, Haf 2017.....	1
1. PRIF GANFYDDIADAU.....	2
2. CANFYDDIADAU ANSODDOL.....	4
3. CEFNDIR A METHODOLEG.....	6
4. PERFFORMIAD YR HAF.....	8
5. PERFFORMIAD FESUL RHANBARTH.....	11
6. RHESYMAU DROS GYNNYDD MEWN YMWELWYR.....	12
7. RHESYMAU DROS LAI O YMWELWYR.....	13
8. PROFFIDIOLDEB.....	14
9. DISGWYLIADAU A HYDER AR GYFER YR HAF.....	16
10. Y FLWYDDYN ANTUR A'R FLWYDDYN CHWEDLAU.....	20
11. BLWYDDYN Y MÔR.....	28

1. PRIF GANFYDDIADAU

Haf prysur i ddiwydiant twristiaeth Cymru

- 1.1 Mae busnesau twristiaeth yng Nghymru wedi mwynhau haf llwyddiannus. Mae bron i ddau ym mhob pump (40%) wedi derbyn mwy o ymwelwyr na haf y llynedd, ac mae cyfran debyg (39%) wedi derbyn yr un faint.
- 1.2 Rhoddwyd amrywiaeth eang o resymau dros yr haf prysur. Y rhesymau mwyaf cyffredin yw 'marchnata ein hunain' (23% o fusnesau'n derbyn mwy o ymwelwyr) a 'mwy o bobl Brydeinig yn aros yn y DU' (16%).

Atyniadau a darparwyr gweithgareddau'n elwa ar eu marchnata eu hunain

- 1.3 Mae dros hanner (56%) o atyniadau a darparwyr gweithgareddau wedi cael mwy o ymwelwyr na'r haf diwethaf – y gyfran uchaf o unrhyw sector yn y diwydiant. Credir bod gwaith marchnata eu hunain wedi chwarae rhan allweddol yn hyn. Mae dau o bob pump (40%) o atyniadau a darparwyr gweithgareddau a dderbyniodd fwy o ymwelwyr yn nodi hwn fel rheswm dros fod yn brysurach.

Mae pob rhanbarth yng Nghymru wedi mwynhau haf da

- 1.4 Mae'r pedwar rhanbarth yng Nghymru (gogledd, canolbarth, de-orllewin a de-ddwyrain) wedi gweld cynnydd mewn ymwelwyr ar y cyfan. Mae'r de-ddwyrain yn arbennig wedi perfformio'n dda iawn, gydag ymron i hanner (46%) o fusnesau'n derbyn mwy o ymwelwyr, ac un rhan o dair (32%) yn derbyn yr un faint.

Hyderus iawn ar gyfer gweddill y flwyddyn

- 1.5 Yn dilyn haf prysur, mae gweithredwyr yn teimlo'n hyderus ar gyfer gweddill y flwyddyn. Dywed dros chwarter (28%) ohonynt eu bod yn teimlo'n 'hyderus iawn' a dros hanner (54%) ohonynt eu bod yn 'eithaf hyderus'.

Blynyddoedd thematig – antur yw'r thema fwyaf cyffredin ymysg atyniadau a darparwyr gweithgareddau

- 1.6 Mae tua hanner (56%) o fusnesau'n ymwybodol o flwyddyn thematig Croeso Cymru ar gyfer 2017, 'Blwyddyn Chwedlau', ac mae cyfran debyg (54%) yn ymwybodol o thema'r llynedd, 'Blwyddyn Antur'.
- 1.7 Mae chwarter (25%) o'r busnesau sy'n ymwybodol o un thema neu'r llall (neu 14% o'r sampl gyfan) wedi cynnal rhyw weithgaredd i gyd-fynd â'r thema.
- 1.8 Mae ymwybyddiaeth a gweithredu yn llawer uwch ymysg atyniadau a darparwyr gweithgareddau. Mae tri o bob pedwar (76%) yn ymwybodol o isafswm o un thema, a dros hanner (54%) o'r rhai sy'n ymwybodol wedi cynnal gweithgaredd i gyd-fynd â'r thema.

Blwyddyn y Môr

- 1.9 Mae tua chwarter (23%) o ddarparwyr gweithgareddau yn ymwybodol mai blwyddyn thematig 2018 yw 'Blwyddyn y Môr'. Mae oddeutu hanner (48%) o'r rhai sy'n ymwybodol (neu 11% o'r sampl gyfan) yn cynllunio gweithgaredd ar gyfer y thema hon.
- 1.10 Mae ymwybyddiaeth a gweithredu yn llawer uwch ymysg atyniadau a darparwyr gweithgareddau. Mae ymron i hanner (45%) yn ymwybodol o Flwyddyn y Môr, a dwy ran o dair (64%) o'r rhai sy'n ymwybodol yn bwriadu cynnal gweithgaredd i gyd-fynd â'r thema.
- 1.11 Mae'r bwriad i gynnal gweithgareddau yn llawer uwch ymysg busnesau mewn lleoliad glan môr, lle mae'r rhan fwyaf (72%) o'r rhai sy'n ymwybodol o'r thema yn bwriadu cynnal gweithgaredd. Mae hyn yn cymharu â 38% o fusnesau nad ydynt mewn lleoliad glan môr.

2. CANFYDDIADAU ANSODDOL

- 2.1 Rydym wedi cynnal cyfveliadau manwl dros y ffôn gyda ffigurau twristiaeth allweddol ar draws sefydliadau a chyrff amrywiol ledled Cymru. Trafodir y prif ganfyddiadau isod.

Haf cynnar da iawn ond mae mis Awst wedi bod yn heriol

- 2.2 Roedd mis Mehefin a mis Gorffennaf yn wych i lawer a hyd yn oed yn well nac erioed o'r blaen i rai. Fodd bynnag, mae busnes wedi bod yn arafach ym mis Awst.

"Roedd dechrau'r haf yn dda iawn. Roedd Mehefin a Gorffennaf yn wych. Cafodd rhai busnesau'r mis Gorffennaf gorau erioed. Nid yw mis Awst wedi bod cystal ag yr oedd rhai wedi gobeithio."

"Ar y cyfan, mae'r haf wedi bod yn dda iawn, ond rwy'n gwybod bod rhai wedi cael diwedd heriol iawn i'r haf."

Cynnydd cyson yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf

- 2.3 Mae arweinwyr yn y diwydiant yn teimlo bod busnes wedi cynyddu'n gyson yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Ar y cyfan, mae eleni wedi bod yn gadarnhaol ac roedd y llynedd hefyd yn cael ei hystyried yn llwyddiant yn gyffredinol.

"Rwy'n credu ein bod wedi gweld gwelliant eto eleni. Yn gyffredinol, mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn dda iawn."

"Mae'r haf hwn wedi bod yn dda ac yn well na'r llynedd. Roedd y llynedd yn well na'r flwyddyn flaenorol, felly mae cynnydd cyson wedi bod yn y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf."

Mae cynnydd yn codi gobeithion, ond mae llawer yn bryderus am yr ansicrwydd

- 2.4 O ystyried y duedd gyfredol hon, byddai'r rhan fwyaf yn obeithiol iawn wrth edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, mae'r ansicrwydd ar y gorwel yn golygu bod llawer yn cadw eu traed yn gadarn ar y ddaear.

"Dylem fod yn hyderus iawn wrth edrych ymlaen. Ond mae'n debyg ein bod yn fwy ceidwadol oherwydd yr ansicrwydd. Dim anobeithio, cofiwch."

"Mae pobl yn edrych ymlaen yn gadarnhaol gan mwyaf. Rydym wedi cael dwy flwyddyn dda ac, er bod ansicrwydd, rwy'n credu y byddwn yn gwneud yn dda eto."

Mae gwerth am arian, gwyliau gartref ac atyniadau o ansawdd yn denu ymwelwyr

- 2.5 Dywed arweinwyr yn y diwydiant fod y bunt wannach yn effeithio ar dwristiaeth. Ar yr ochr gadarnhaol, mae'n gwneud y DU yn gymharol ratach ar gyfer gwyliau, ond ar yr ochr negyddol, mae rhai busnesau'n profi costau cynyddol. Fodd bynnag, mae arweinwyr yn y diwydiant hefyd yn sylwi ar y twf mewn atyniadau o ansawdd yng Nghymru, yn ogystal â mwy o bresenoldeb.

“Mae llawer o atyniadau, siopau a gwestai newydd o ansawdd yn agor. Mae Cymru'n dod yn gyrchfan o fri i rai; rydym yn denu amrywiaeth eang o dwristiaid.”

“Mae gennym atyniadau newydd sy'n denu pobl o bell, fel Zip World. Ond mae Cymru'n cael ei hysbysebu fwy hefyd. Mae mwy o bobl fel petaent yn gwybod am Gymru.”

- 2.6 Teimla un arweinydd yn y diwydiant, beth bynnag sy'n digwydd, fod Llywodraeth Cymru'n gweld twristiaeth fel blaenoriaeth ac y bydd y sector yn cael cefnogaeth:

“Ni waeth beth sy'n digwydd, mae'n dda bod Llywodraeth Cymru'n rhoi blaenoriaeth i dwristiaeth ac yn gwario arian ar ddenu ymwelwyr.”

Mae blynyddoedd thematig Croeso Cymru wedi rhoi Cymru ar y map

- 2.7 Teimla arweinwyr yn y diwydiant fod y blynyddoedd thematig yn hysbysebu Cymru'n dda ac yn helpu i ddangos yr hyn sydd gan Gymru i'w gynnig. Mae rhai hyd yn oed yn ceisio manteisio ar hyn drwy gydlyn gweithgareddau o gwmpas y flwyddyn thematig.

“Mae pobl yn gweld yr hysbysebion ac mae'n eu hatgoffa nhw i ddod i Gymru. Mae'n cadw Cymru'n ffres ac yn berthnasol.”

“Mae'r blynyddoedd thematig yn helpu i gael pobl i ganolbwyntio ar beth yw Cymru. Mae'r dreigiau teithiol wedi gwneud i bobl fod eisiau ymweld â'r cestyll hynny.”

“Rydym yn chwilio am gyfleoedd i drefnu digwyddiadau yn arbennig ar gyfer y blynyddoedd thematig.”

“Rydym yn cydlyn unrhyw ymweliadau gan y cyfryngau gyda'r blynyddoedd thematig. Mae'n helpu i gysylltu ein rhanbarth gyda hysbysebu ehangach Croeso Cymru.”

Mae rhai yn teimlo y dylai Croeso Cymru gysylltu â'r rhai ar lawr gwlad ymhell ymlaen llaw

- 2.8 Mae rhai yn edrych ymlaen at y Flwyddyn Darganfod [2019] hyd yn oed ac yn gwerthfawrogi os cynhelir cyfarfodydd gyda Croeso Cymru ymhell ymlaen llaw.

“Rydym wedi gwneud ein gwaith eisoes ar gyfer Blwyddyn y Môr. Rydym yn edrych ar y Flwyddyn Darganfod yn bennaf.”

“Mae'r rhain yn wych. Ond mae angen cynnal unrhyw gyfarfod â ni ymhell ymlaen llaw er mwyn cael amser i baratoi.”

3. CEFNDIR A METHODOLEG

Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

- 3.1 Mae Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru wedi ei gynllunio i roi adborth cyflym ynglŷn â'r ffordd y mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r arolwg wedi bod yn rhedeg ar amrywiol ffurfiau ers 2005, ac arferir cynnal rhwng dau a phum 'cam' ymchwil bob blwyddyn.
- 3.2 Mae'r cam ymchwil hwn yn ymwneud â haf 2017, gyda mesuriadau hefyd o ddisgwyliadau ar gyfer gweddill y flwyddyn.

Sut y cynhelir yr arolwg?

- 3.3 Mae'r arolwg hwn ar gael i'w lenwi ar-lein fel dewis arall yn lle ffonio, a oedd yr unig ddull a ddefnyddiwyd cyn 2016.
- 3.4 Rydym wedi cynnal 806 o gyfweiliadau ar y ffôn, ac mae'r arolwg ar-lein a ddosbarthwyd yn ôl ardal a phartneriaid sector wedi cynhyrchu 52 ymateb arall. Mae'r sampl gyfan o 858 yn golygu bod canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i $\pm 3.3\%$.
- 3.5 Mae'r sampl o 858 ymateb yn adlewyrchu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac fe'i dangosir isod yn ôl sector a rhanbarth:

Sector / Rhanbarth	Gogledd	Canolbarth	De-orllewin	De-ddwyrain	Cyfanswm
Llety â gwasanaeth	102	47	74	63	286
Llety hunanddarpar	95	56	95	42	288
Safleoedd carafanau / gwersylla	39	14	21	6	80
Hostelau	8	8	8	9	33
Atyniadau	25	13	20	28	86
Bwyta / tafarndai / caffis	8	15	6	12	41
Gweithredwyr gweithgareddau	15	8	14	7	44
Cyfanswm	292	161	238	167	858

- 3.6 Mae oddeutu tri o bob pump (58%) o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru ar hyn o bryd ac mae 42% heb eu graddio. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau nad ydynt wedi eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytai / tafarndai / caffis a gweithredwyr gweithgareddau, lle nad yw


graddio yn berthnasol. Mae gweithredwyr bwytai, tafarndai a chaffis wedi eu dewis mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o dwristiaid ar draws gwahanol rannau o Gymru a gofynnwyd iddynt ateb cwestiynau yng nghyd-destun eu cwsmeriaid sy'n dwristiaid (h.y. nid cwsmeriaid lleol).

- 3.7 Cynhaliwyd pob cyfweiliad ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnes ym mis Awst a dechrau mis Medi. Cynhwysir copi o'r holiadur fel atodiad.

Cam	Enw'r cam	Cyfnod amser
Cam 1, 2016	Pasg	26 Mawrth tan 10 Ebrill
Cam 2, 2016	Hanner tymor Mai/Mehefin	28 Mai tan 5 Mehefin
Cam 3, 2016	Yr haf	Mis Mehefin i fis Awst
Cam 4, 2016	Yr hydref	Mis Medi tan ddechrau mis Tachwedd
Cam 1, 2017	Pasg	8 Ebrill tan 23 Ebrill
Cam 2, 2017	Hanner tymor Mai/Mehefin	27 Mai tan 4 Mehefin
Cam 3, 2017	Yr haf	Mis Mehefin i fis Awst

4. PERFFORMIAD YR HAF

PERFFORMIAD FESUL SECTOR



Cyfnod da i'r diwydiant

- 4.1 Mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru wedi mwynhau haf llwyddiannus, gyda dau o bob pump (40%) o fusnesau'n gweld cynnydd yn nifer eu hymwelwyr o gymharu â'r haf diwethaf. Mae hyn wedi arwain at hwyliau da.

"Perfformiad llawer gwell na haf y llynedd."
Llety â gwasanaeth, y de-ddwyrain

"Gwelliant sylweddol o gymharu â llynedd oherwydd y nifer mwy o ymwelwyr, mwy o ddigwyddiadau mawr, gwell effeithiolrwydd o ran costau a thîm cryfach yn y gwesty."
Llety â gwasanaeth, y de-ddwyrain

Atyniadau a darparwyr gweithgareddau'n elwa ar eu marchnata eu hunain

- 4.2 Mae dros hanner (56%) o atyniadau a darparwyr gweithgareddau wedi cael mwy o ymwelwyr na'r haf diwethaf. Credir bod gwaith marchnata eu hunain wedi chwarae rhan allweddol yn hyn. Mae dau o bob pump (40%) o atyniadau a darparwyr gweithgareddau a dderbyniodd fwy o ymwelwyr yn nodi hwn fel rheswm dros fod yn brysurach.

"Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar ein marchnata trwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol ac ar lafar. Bydd gweithwyr yn hyrwyddo'r busnes a hyd yn oed y bobl sydd wedi mynychu fel gwsteion."
Gweithredwr gweithgareddau, y de-orllewin

- 4.3 Mae hefyd yn werth nodi bod y sector hwn wedi bod yn fwy gweithgar nac unrhyw un arall o ran cynnal gweithgareddau i gyd-fynd â blynyddoedd thematig Cymru. Caiff hyn ei drafod yn fanwl yn Adran 11.

Y sector llety â gwasanaeth yn elwa ar asiantau ar-lein

- 4.4 Yn gyffredinol, mae busnes ar i fyny yn y sector llety â gwasanaeth. Ymddengys bod asiantau archebu ar-lein (fel booking.com) wedi chwarae rhan, gan fod tua chwarter (23%) o'r rhai a dderbyniodd fwy o ymwelwyr yn nodi hwn fel rheswm.

“Rydym wedi bod yn brysurach oherwydd archebion ar-lein trwy asiantau.”
Llety â gwasanaeth, y gogledd

Gwell tywydd wedi annog Prydeinwyr ar wyliau i fynd i wersylla

- 4.5 Mae meysydd carafanau a gwersylla wedi mwynhau haf prysur. Mae llawer o hyn oherwydd bod Prydeinwyr yn cael eu denu gan y tywydd. Dywed tua dau o bob pump (38%) o feysydd carafanau a phebyll sydd wedi cael mwy o ymwelwyr fod y ffaith bod 'mwy o Brydeinwyr yn aros yn y DU' yn rheswm dros fod yn brysurach na'r haf diwethaf, ac mae 28% arall yn nodi 'tywydd gwell' fel rheswm.

“Mae ein holl ymwelwyr eleni wedi bod yn Brydeinwyr.”
Parc carafanau, y de-orllewin


Amser mwy heriol i rai bwytai, tafarndai a chaffis

- 4.6 Dyma'r sector â'r gyfran uchaf (34%) o fusnesau'n nodi llai o gwsmeriaid yr haf hwn. Mae rhesymau'n benodol i ardaloedd arbennig.

“Roedd Cwpan Rygbi'r Byd y llynedd felly roedd llif o fusnes yn yr ardal gyda phobl yn heidio i'r stadiwm. Roedd eleni ychydig yn arafach o gymharu.”
Tafarn, y de-ddwyrain

“Rhoddodd y cyngor ganiatâd i lawer o fusnesau newydd yn yr ardal eleni ac mae llawer ohonynt yn fwytai sy'n rhan o gadwyn. Nid yw'r arian yn aros yn yr ardal ac mae cystadleuaeth gref iawn.”
Bwyty, y de-orllewin


TUEDD O RAN PERFFORMIAD



Haf da yn dilyn haf da arall

- 4.7 Caiff symudiadau yn niferoedd ymwelwyr eu dilyn ym mhob cam, fel yr amlinellir yn y siart uchod.
- 4.8 Dengys hyn pa mor dda mae'r diwydiant wedi perfformio'r haf hwn: mae 40% o fusnesau wedi cynyddu niferoedd eu hymwelwyr o gymharu â haf 2016, a oedd ynddo'i hun yn llawer gwell haf na 2015.

5. PERFFORMIAD FESUL RHANBARTH



Mae pob rhanbarth yng Nghymru wedi mwynhau haf da

5.1 Mae'r pedwar rhanbarth yng Nghymru wedi gweld cynnydd mewn ymwelwyr ar y cyfan.

"Rydym wedi gweld cynnydd cyffredinol mewn ymwelwyr ac mae'r arian wedi mynd yn ôl i mewn i'r parc."
Parc carafanau, y gogledd


Mae digwyddiadau wedi denu ymwelwyr i dde-ddwyrain Cymru

5.2 Mae'r de-ddwyrain yn arbennig wedi perfformio'n dda iawn, gydag ymron i hanner (46%) o fusnesau'n derbyn mwy o ymwelwyr. Mae tua chwarter (24%) o fusnesau a brofodd gynnydd yn nodi 'digwyddiadau yn yr ardal' fel y rheswm – yn arbennig digwyddiadau chwaraeon a chyngherddau pop.

"Mae digwyddiadau chwaraeon fel gêm derfynol Cynghrair y Pencampwyr a chyngherddau pop mawr wedi rhoi hwb i fusnes."
Llety â gwasanaeth, y de-ddwyrain

"Rydym wedi cael llawer mwy o gyngherddau yn yr ardal fel Coldplay a Justin Bieber."
Bwyty, Caerdydd

6. RHESYMAU DROS GYNNYDD MEWN YMWELWYR




Rhesymau eang dros y cynnydd yn niferoedd ymwelwyr – amrywiad fesul sector

6.1 Rhoddwyd amrywiaeth eang o resymau dros y cynnydd yn niferoedd ymwelwyr yr haf hwn, ac mae canlyniadau'n amrywio fesul sector. Isod, dangosir y rhesymau mwyaf cyffredin a roddir dros y cynnydd yn niferoedd ymwelwyr ym mhob sector:

- Llety â gwasanaeth – Mwy o archebion trwy asiant ar-lein (23%)
- Llety hunanddarpar – Marchnata eu hunain (20%)
- Meysydd carafanau a gwersylla – Mwy o bobl Brydeinig yn aros yn y DU (38%)
- Hostelau – Ymwelwyr yn dychwelyd (31%) a marchnata eu hunain (31%)
- Atyniadau a darparwyr gweithgareddau – Marchnata eu hunain (40%)
- Bwyta / tafarndai / caffis – Digwyddiadau yn yr ardal (27%) a thywydd gwell (27%)

7. RHESYMAU DROS LAI O YMWELWYR




Mae ardaloedd glan môr ac ardaloedd gwledig yn fwy agored i ddioddef oherwydd tywydd gwael

- 7.1 Mae'r tywydd yng Nghymru wedi bod yn eithaf cymysg yn ystod yr haf, a nodir hyn fel ffactor cadarnhaol a negyddol o ran nifer ymwelwyr.
- 7.2 Weithiau mae effaith tywydd gwael yn dibynnu ar leoliad busnes. Mae tua un rhan o dair (32%) o fusnesau mewn lleoliadau gwledig a glan môr sydd wedi cael llai o ymwelwyr yn nodi'r tywydd fel rheswm. Mae hyn yn cymharu â chyfran is (23%) o fusnesau a leolir mewn trefi a dinasoedd.

"Haf tawelach – i gyd oherwydd y tywydd."
Parc carafanau, y gogledd (glan môr)

"Rydym wedi cael llawer mwy o gyngherddau eleni ac mae mwy o bobl wedi bod yn ymweld â chanol y ddinas."
Bwty, y de-ddwyrain (Caerdydd)

8. PROFFIDIOLDEB



Canlyniadau proffidioldeb ar y cyfan yn unol â niferoedd ymwelwyr

- 8.1 Mae proffidioldeb ar i fyny ar y cyfan, gyda mwy o fusnesau'n gweld cynnydd na gostyngiad. Mae'r canlyniadau cyffredinol yn debyg i C2 (niferoedd ymwelwyr), sy'n awgrymu ei bod yn debygol bod y maint elw wedi cael ei gynnal yn eithaf da ac nad yw'r cynnydd mewn ymwelwyr wedi cael ei gyflawni trwy ostwng prisiau'n unig.

"Mae elw gros ar i fyny. Rydym wedi buddsoddi mewn gwella cyfleusterau."
Parc carafanau, y de-ddwyrain

"Mae proffidioldeb ar i fyny ychydig oherwydd ein bod wedi codi ein prisiau ychydig."
Gweithredwr llety hunanddarpar, y gogledd

Maint elw yn erbyn nifer yr ymwelwyr yn y sector llety â gwasanaeth

- 8.2 Efallai bod y sector llety â gwasanaeth yn eithriad yn yr ystyr nad yw proffidioldeb wedi bod yn gyson â chynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr yn yr un ffordd. Fel y gwnaethom drafod yn gynharach yn y rhesymau dros fod yn brysach, y defnydd o asiantau archebu ar-lein yw'r ffactor sy'n cael ei nodi fwyaf. Pan fyddant yn penderfynu defnyddio asiantau ar-lein, mae busnesau'n dewis rhwng niferoedd ymwelwyr a maint elw.


"Rydym yn cymryd mwy o archebion ond mae comisiwn mawr yn cael ei dalu i booking.com, tua £3,000 – £4,000 y mis."
Llety â gwasanaeth, y de-ddwyrain

"Mae pobl yn defnyddio asiantaethau archebu. Nid ydym wedi cofrestru ag un, felly nid ydym yn derbyn yr un faint o ymwelwyr."
Llety â gwasanaeth, y gogledd

Mae bwytaï / tafarndai / caffis wedi rheoli proffidioldeb yn dda

8.3 Mae'r sector bwytaï / tafarndai / caffis wedi cael canlyniadau cymysg o ran niferoedd ymwelwyr yr haf hwn, ond mae'n un o'r sectorau sy'n perfformio gryfaf o ran newid mewn proffidioldeb.

TUEDDIADAU O RAN PROFFIDIOLDEB




Mae proffidioldeb ar i fyny, hyd yn oed o gymharu â haf da

8.4 Mae proffidioldeb cyffredinol ar i fyny'r haf hwn o gymharu â haf 2016, a oedd yn ei dro yn haf da iawn o gymharu â 2015.

“Rydym wedi llwyddo i gael gwell prisiau gan gyflenwyr felly mae ein helw ar i fyny.”
Gweithredwr gweithgareddau, y de-orllewin

9. DISGWYLIADAU A HYDER AR GYFER YR HAF

DISGWYLIADAU FESUL SECTOR



Maint y sampl: 743

Disgwyliadau cymedrol i dda ar gyfer gweddill y flwyddyn

- 9.1 Yn nodweddiadol nid, oes gan weithredwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer yr hydref a'r gaeaf gan eu bod yn gwybod bod eu cyfnod prysuraf wedi mynd heibio. Er hynny, yn gyffredinol disgwylir i weddill y flwyddyn fod yn well na'r un cyfnod yn 2016.

"Mae archebion yn dda ar gyfer gweddill y flwyddyn."
Parc carafanau, y de-orllewin


"Rydym yn llawn dros y Nadolig, Tachwedd – prysur trwy gydol y flwyddyn."
Hostel, y canolbarth

Mae atyniadau a darparwyr gweithgareddau yn arbennig o gadarnhaol

- 9.2 Mae disgwyliadau atyniadau a darparwyr gweithgareddau yn eithaf uchel ar gyfer gweddill y flwyddyn. Mae rhai yn sôn eu bod yn ddibynnol ar y tywydd ond mae eraill yn rhagweithiol wrth drefnu digwyddiadau i ddenu ymwelwyr.

"Rydym yn gwneud ein gorau ac yn ceisio creu digwyddiadau a gweithdai newydd bob blwyddyn."
Atyniad, y de-ddwyrain


TUEDD O RAN DISGWYLIADAU



Mae disgwyliadau'n dymhorol

- 9.3 Mae disgwyliadau'n uwch yn y gwanwyn, pan fydd gweithredwyr yn edrych ymlaen at fod yn brysurach. I'r gwrthwyneb, mae disgwyliadau gweithredwyr yn is pan fydd yr haf wedi mynd heibio, er bod cwestiynau am ddisgwyliadau'n cael eu gofyn mewn cymhariaeth â'r un cyfnod yn ystod y flwyddyn flaenorol bob amser.

HYDER FESUL SECTOR



Hyder da ar draws pob sector

9.4 Mae haf da wedi helpu gweithredwyr ym mhob sector i deimlo'n hyderus ynglŷn â busnes am weddill y flwyddyn.

"Rydym yn gobeithio am fis Medi a Hydref da iawn."

Hostel, y canolbarth

"Rydym yn dibynnu ar y tywydd ond rydym wedi ychwanegu digwyddiadau a gweithdai newydd felly rydym yn gobeithio am y gorau os bydd y tywydd o'n plaid."

Atyniad, y de-ddwyrain


Mwy o ddigwyddiadau mawr yn dod i Gaerdydd

9.5 Mae rhai gweithredwyr yng Nghaerdydd yn hyderus am yr hydref oherwydd bod mwy o ddigwyddiadau mawr yn dod i'r ddinas, gan gynnwys gemau rygbi rhyngwladol yr hydref a gornest baffio pencampwr y byd gydag Anthony Joshua (ar 28 Hydref).

"Rydym yn disgwyl digwyddiadau mawr eraill yn y Stadiwm [Principality]. Mae gemau rygbi rhyngwladol yr hydref a'r paffio hefyd."

Bwyty, y de-ddwyrain

TUEDD MEWN HYDER



Mae hyder yn dymhorol


- 9.6 Mae gweithredwyr yn dueddol o fod yn fwy hyderus wrth edrych ymlaen at ar haf (yn arbennig yng nghanam 2), ac yn llai hyderus wrth edrych ymlaen at yr hydref a'r gaeaf (camau 3 a 4). Serch hynny, mae cyfran llawer mwy o weithredwyr sy'n teimlo'n hyderus na rhai nad ydynt yn teimlo'n hyderus.
- 9.7 Mae'r diwydiant hefyd yn cynnwys llawer o fusnesau 'ffordd o fyw' lle nad yw twristiaeth yn brif ffynhonnell incwm i'r perchnogion. Nid yw rhai'n poeni'n ormodol am faint o archebion maent yn eu derbyn y tu allan i'r prif dymor.

"Rydym yn fusnes ffordd o fyw, dielw."
Hostel, y canolbarth

"Os byddwn yn penderfynu agor, byddwn yn cael archebion."
Llety â gwasanaeth, y de-ddwyrain

10. Y FLWYDDYN ANTUR A'R FLWYDDYN CHWEDLAU


YMWYBYDDIAETH O FLYNYDDOEDD THEMATIG



Mae dros hanner y gweithredwyr yn ymwybodol o flynyddoedd thematig

- 10.1 Mae dros hanner (58%) o weithredwyr yn ymwybodol o isafswm o un flwyddyn thematig. Mae'r rhai sydd naill ai'n ymwybodol o'r Flwyddyn Antur neu'r Flwyddyn Chwedlau fel arfer yn ymwybodol o'r ddwy.
- 10.2 Ar y cyfan, mae 42% nad yw'n ymwybodol o'r un ohonynt. Mae llawer llai o ymwybyddiaeth yn y sector bwyta / tafarndai / caffis (20%), y gallai Croeso Cymru eu targedu ymhellach.
- 10.3 I'r gwrthwyneb, mae tua thri chwarter (76%) o atyniadau a darparwyr gweithgareddau yn ymwybodol o isafswm o un flwyddyn thematig.

FFYNHONNELL YMWHYDDIAETH



Gofynnwyd C11 i'r rhai sydd wedi clywed am o leiaf un flwyddyn thematig yn C10

Mae e-byst a chylchlythyrau'n ffordd allweddol o gyfathrebu

10.4 Dywedodd ymron i hanner (47%) yr holl ymatebwyr sydd wedi clywed am o leiaf un flwyddyn thematig eu bod wedi cael eu gwneud yn ymwybodol ohoni trwy e-bost neu gylchlythyr gan Croeso Cymru. Dyma'r ffordd fwyaf cyffredin o bell ffordd o dynnu sylw busnesau twristiaeth at y blynyddoedd thematig.

Ond nid pawb sy'n eu derbyn

10.5 Dywed rhai ymatebwyr y byddent wedi hoffi derbyn gwybodaeth gan Croeso Cymru. Byddent yn hoffi derbyn yr ohebiaeth i godi ymwybyddiaeth o'r blynyddoedd thematig gydag awgrymiadau ar gyfer y ffordd orau i weithredu bob blwyddyn.

"Nid wyf yn derbyn unrhyw e-byst oddi wrth Croeso Cymru am y blynyddoedd thematig. Yr unig reswm rwy'n gwybod am y themâu yw oherwydd fy mod yn ymweld â gwefan Croeso Cymru fy hun."
Llety hunanddarpar, y de-orllewin


Mae ffyrdd eraill yn llai amlwg

- 10.6 Codwyd ymwybyddiaeth mewn llawer o ffyrdd eraill, gan gynnwys gwybodaeth gan gymdeithasau twristiaeth lleol ac awdurdodau lleol (19%), teledu a hysbysebion eraill ar gyfer Cymru (13%), a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol (13%).
- 10.7 Mae eraill wedi clywed am y blynyddoedd thematig trwy bapurau newydd, ffrindiau a theulu.

“Darllenais amdani mewn papur newydd cenedlaethol.”
Safle carafanau / gwersylla

“Dyweddodd fy ngŵr wrthyf.”
Safle carafanau / gwersylla

GWEITHGAREDDAU BLYNYDDOEDD THEMATIG



Gofynnwyd C12 i'r rhai sydd wedi clywed am o leiaf un flwyddyn thematig yn C10

Mae mwy o weithredu ymysg atyniadau a darparwyr gweithgareddau

- 10.8 Mae chwarter (25%) o'r busnesau sy'n ymwybodol o un thema neu'r llall (neu 14% o'r sampl gyfan) wedi cynnal gweithgaredd i gyd-fynd â'r thema. Mae'r rhai sydd wedi gweithredu wedi gwneud hynny ar gyfer y ddwy flynedd fel arfer.
- 10.9 Mae'r mwyaf o weithredu ymysg atyniadau a darparwyr gweithgareddau, lle mae dros hanner (54%) y rhai sy'n ymwybodol (neu 41% o'r sampl gyfan) wedi cynnal gweithgaredd i gyd-fynd â'r thema.
- 10.10 Gellid gwneud mwy i annog busnesau i gynnwys y blynyddoedd thematig yn eu gweithgareddau a digwyddiadau hyrwyddo, a drafodir yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

10.11 Mae'r tabl isod yn dangos manylion llawn ynglŷn ag ymwybyddiaeth a gweithredu fesul sector:


Sector / Rhanbarth	% ymwybyddiaeth o flynyddoedd thematig	% yn cymryd camau gweithredu
Atyniadau / gweithredwyr gweithgareddau	76%	41%
Hostelau	58%	18%
Llety â gwasanaeth	53%	12%
Llety hunanddarpar	61%	8%
Safleoedd carafanau / gwersylla	50%	6%
Bwytai / tafamdai / caffis	20%	5%
Cyfanswm	58%	14%

Sylwer: Mae'r canrannau sy'n gweithredu'n seiliedig ar y sampl gyfan, nid y rhai sy'n ymwybodol yn unig

Dim gwahaniaethau fesul rhanbarth

10.12 Nid oes unrhyw wahaniaethau sylweddol fesul rhanbarth mewn perthynas ag a yw busnesau wedi gweithredu ai peidio. Yr unig wahaniaeth mewn ymwybyddiaeth yw bod 46% o fusnesau de-ddwyrain Cymru'n ymwybodol o flynyddoedd thematig, sy'n cymharu â 60% o fusnesau yng ngweddill Cymru.

GWEITHGAREDDAU A GYNHALIWYD



Gofynnwyd C13 i'r rhai sydd wedi cynnal gweithgareddau ychwanegol (C12)

Hyrwyddo i gwsmeriaid


10.13 Mae busnesau wedi ymgysylltu â'r Flwyddyn Antur a'r Flwyddyn Chwedlau mewn llawer o ffyrdd, o gynnwys negeseuon yn eu deunydd marchnata i siarad â chwsmeriaid neu gymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau arbennig.

"Gwnaethom hyrwyddo digwyddiad ar gyfer y Flwyddyn Chwedlau a chynnal gweithgareddau ar thema Bwrdd y Brenin Arthur, ac roeddem yn gallu hysbysebu fwy ar y cyfryngau cymdeithasol a hyrwyddo'r digwyddiad."
Llety â gwasanaeth, y de-ddwyrain

"Gwnaethom roi cynigion am ddim i gwsmeriaid gyda'r Flwyddyn Antur."
Gweithredwr gweithgareddau, y canolbarth

"Gwnaethom ryddhau digonedd o wybodaeth i gyd-fynd â'r Flwyddyn Chwedlau, fel gwybodaeth am y Mabinogi."
Gweithredwr gweithgareddau, y gogledd

RHESYMAU DROS BEIDIO Â CHYNNAL GWEITHGAREDDAU



Gofynnwyd C14 i'r rhai nad ydynt wedi cynnal gweithgaredd ychwanegol (C12)

Canfyddiad nad oeddent yn berthnasol i fusnesau


10.14 O'r rhai nad ydynt wedi cynnal unrhyw weithgaredd ychwanegol, dywed 44% ohonynt nad yw/oedd y themâu yn berthnasol i'w busnes.

"Dyma'r ail flwyddyn yn olynol na fyddwn yn gallu cynnwys unrhyw un o'u blynyddoedd thematig yn ein hysbysebion, sy'n drueni. Dylid gwneud y themâu'n berthnasol i bob busnes ym mhob ardal."
Gweithredwr gweithgareddau, y canolbarth

"Rwy'n teimlo nad ydynt o anghenraid yn berthnasol iawn i'n busnes."
Llety hunanddarpar, y canolbarth

"Mae'n ymddangos fel syniad da ar gyfer twristiaeth yn gyffredinol ond nid yw'n berthnasol iawn i'm busnes i."
Llety hunanddarpar, y de-ddwyrain

EFFAITH



Gofynnwyd C15 i'r rhai sy'n ymwybodol o'r naill flwyddyn thematig neu'r llall (C10)

Mae tua chwarter o'r rhai sy'n ymwybodol wedi elwa yn sgil hynny


10.15 Mae tua chwarter (23%) o'r ymatebwyr sy'n ymwybodol o un flwyddyn thematig o leiaf yn dweud ei bod wedi bod o fudd i'w busnes. Yn benodol, mae 42% o atyniadau a gweithredwyr gweithgareddau'n dweud bod y Flwyddyn Antur neu'r Flwyddyn Chwedlau wedi bod yn dda i fusnes, ac mae un rhan o dair (32%) o hostelau'n dweud yr un peth.

Mae gweithredu'n dwyn ffrwyth

10.16 Ar y cyfan, mae angen i fusnesau fod yn rhagweithiol os ydynt am weld a chydabod manteision y blynyddoedd thematig. Mae hanner (50%) y rhai sydd wedi gweithredu wedi gweld eu busnes yn elwa (y rhaniad yw 8% 'cadarnhaol iawn' / 42% 'eithaf cadarnhaol').

*"Mae'n bosibl bod ein gweithgaredd hyrwyddo wedi arwain at fwy o gwsmeriaid."
Llety hunanddarpar, y de-ddwyrain*

MANTEISION I FUSNESAU



Sylwer: Gofynnwyd C16 i'r rhai sydd wedi elwa ar y blynyddoedd thematig yn unig (C15), nid y sampl gyfan

Mwy o ymwelwyr yw'r budd mwyaf

10.17 Dywed dwy ran o dair (66%) o'r rhai sydd wedi elwa ar y blynyddoedd thematig eu bod wedi gweld mwy o ymwelwyr. Pan addasir y sampl i gael y sampl gyfan ar gyfer yr arolwg, dywed 9% o fusnesau twristiaeth yng Nghymru eu bod wedi gweld mwy o ymwelwyr o ganlyniad i flynyddoedd thematig. Dyma'r budd a nodwyd amlaf ym mhob sector ac ym mhob rhanbarth o Gymru.

Hwb i Gymru

10.18 Dywed ymron i un o bob chwech (16%) o ymatebwyr fod y blynyddoedd thematig yn dda i Gymru gyfan. Mae'r blynyddoedd thematig yn fwy tebygol o gael effaith ar ganfyddiadau ymwelwyr a darpar ymwelwyr o Gymru wrth iddi ddod i'w meddwl gyntaf fel lleoliad ar gyfer seibiant byr neu wyliau. Mae hyn yn ei dro o fudd i fusnesau yn y tymor hirach.


"Nid yw'n effeithio arnaf i'n uniongyrchol mewn gwirionedd ond mae'n wych i Gymru fel cyrchfan i dwristiaid ac yn y pen draw bydd yn dod â mwy o bobl i Gymru."

Llety â gwasanaeth, y de-orllewin

"Mae'r hysbysebion teledu a hysbysebu'r blynyddoedd thematig yn genedlaethol yn helpu i hyrwyddo Cymru ar lwyfan ehangach."

Atyniad, y de-orllewin


11. BLWYDDYN Y MÔR



Ymwybyddiaeth gymharol isel o Flwyddyn y Môr

- 11.1 Ar y cyfan, ychydig o ymwybyddiaeth sydd (23%) o thema'r flwyddyn nesaf – Blwyddyn y Môr. Gydag ond ychydig fisoedd i fynd tan 2018, gellid gwneud mwy i gynyddu gwybodaeth ac ymgysylltiad o fewn y diwydiant twristiaeth.
- 11.2 Fodd bynnag, mae atyniadau a gweithredwyr gweithgareddau ar flaen y sectorau eraill, gyda 45% yn gwybod beth yw thema'r flwyddyn nesaf.
- 11.3 Ar ben arall y raddfa mae'r bwytai / tafarndai / caffis, nad ydynt yn ymwybodol o gwbl o Flwyddyn y Môr.

GWEITHGAREDDAU ARFAETHEDIG



Gofynnwyd C18 i'r rhai sy'n ymwybodol o Flwyddyn y Môr (C17)

Gweithredu'n fwy tebygol mewn lleoliadau glan môr

11.4 Mae'r rhan fwyaf (72%) o weithredwyr mewn lleoliad glan môr sy'n ymwybodol o'r thema'n bwriadu cynnal gweithgaredd. Mae hyn yn cymharu â 38% o fusnesau nad ydynt mewn lleoliad ar lan y môr.

Amrywiaeth y gweithgareddau arfaethedig

11.5 Atyniadau a gweithredwyr gweithgareddau yw'r mwyaf tebygol o unrhyw sector i gynllunio rhyw fath o weithgaredd – mae dau o bob tri (64%) o'r rhai sy'n ymwybodol yn bwriadu gwneud rhywbeth.

"Byddwn yn gweithio gyda'r system gamlesi ac yn cyd-fynd â gweithgareddau eraill ger glan y môr."

Atyniad, y de-ddwyrain

"Byddwn yn cynnal arddangosfa am ein môr-leidr lleol."

Atyniad, y de-ddwyrain

- 11.6 Ynghyd â chynnwys negeseuon a brandio mewn deunyddiau marchnata, mae rhai gweithredwyr yn bwriadu chwarae rhan fwy uniongyrchol yn thema'r flwyddyn nesaf.

“Rwy'n bwriadu dilyn fy mhrosiect gyda'r cyngor lleol i wneud ein traeth yn hygyrch i bobl dan anfantais.”

Llety hunanddarpar, y de-orllewin

“Rydym yn cynllunio menter ar y cyd gyda darparwyr chwaraeon dŵr gan nad ydym ond rhyw ddwy filltir o'r môr.”

Parc carafanau, y de-orllewin

Eisiau gwneud rhywbeth – ond ddim yn siŵr beth

- 11.7 Dywed tua un o bob deg (11%) y byddant yn cynnal rhyw fath o weithgaredd ar gyfer Blwyddyn y Môr, ond nad ydynt yn gwybod ar ba ffurf y bydd y gweithgaredd hwnnw. Mae hyn yn fwy gwir yn achos busnesau ger glan y môr (19%).


“Wn i ddim beth rydym yn mynd i'w wneud ar gyfer Blwyddyn y Môr, ond rydym yn gobeithio gwneud rhywbeth i'w nodi.”

Gweithredwr gweithgareddau, y de-orllewin

“Ar fin cael cyfarfod yr wythnos nesaf ynglŷn â'r hyn y byddwn yn ei wneud ar gyfer Blwyddyn y Môr.”

Gweithredwr gweithgareddau, y de-orllewin

RHESYMAU DROS BEIDIO Â CHYNLLUNIO UNRHYW WEITHGAREDDAU



Gofynnwyd C19 i'r rhai nad ydynt yn bwriadu cynllunio gweithgaredd (C18)

Mae daearyddiaeth yn chwarae rhan mewn ymgysylltu

11.8 Dywed dros hanner (56%) y busnesau nad ydynt yn cynllunio unrhyw weithgaredd i gyd-fynd â Blwyddyn y Môr mai'r rheswm dros hyn yw nad yw'n berthnasol i'w busnes. Mae'r rhain yn fwy tebygol o fod yn ymatebwyr nad ydynt yn ystyried eu hunain i fod mewn lleoliad glan môr (ceir yr ateb hwn gan 61%).

'Sut fyddai'n fy helpu i?'

11.9 Dywed un o bob chwech (17%) na fyddai o fudd i'w busnes – mae'r ymatebwyr hyn i gyd yn y sectorau llety hunanddarpar a llety â gwasanaeth.

Ddim yn gwybod beth i'w wneud

11.10 Mae 12% o weithredwyr yn nodi nad ydynt yn gwybod beth i'w wneud – na sut i'w wneud – fel rheswm pam na fyddant yn gwneud unrhyw beth i gyd-fynd â'r flwyddyn thematig yn 2018.

"Nid ydym wedi derbyn unrhyw wybodaeth felly fyddem ni ddim yn gwybod beth i'w wneud."

Hostel, y gogledd

"Angen mwy o wybodaeth ymlaen llaw ar fusnesau bach."

Llety hunanddarpar, y gogledd

Cyfyngiadau amser ac arian

11.11 Er bod 7% o ymatebwyr yn dweud na fydd ganddynt amser i wneud unrhyw weithgaredd ychwanegol, trwy'r fforwm sylwadau agored dywed gweithredwyr eraill na fyddent yn gallu fforddio cynnal unrhyw weithgaredd.

“Oherwydd toriadau enfawr i'r gyllideb a llai o staff, allwn ni ddim fforddio cymryd sylw o'r thema.”

Atyniad, y de-ddwyrain

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

Holiadur yr Haf 2017

Method

..... ☐
..... ☐

Sector Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich math o fusnes orau?

Llety â gwasanaeth ☐
Llety hunan arlwyd ☐
Maes carafannau / pebyll ☐
Hostel ☐
Atyniad ☐
Cynnal gweithgaredd ☐
Bwyty / tafarn / caffi ☐

Q1 A yw eich busnes wedi'i sefydlu am fwy na 12 mis?

Do ☐ Go to Q2
Naddo ☐ Go to Q8

Q2 O gymharu â'r haf y llynedd, faint o ymwelwyr yr ydych wedi'u cael yr haf yma?

Yn fwy na'r llynedd ☐
Tua'r un peth ag y llynedd ☐
Yn llai na'r llynedd ☐
Ddim yn gwybod ☐

Q3 Pam fydddech chi'n dweud eich bod wedi cael mwy o ymwelwyr? (*Paid a annog, ticiwch bob un perthnasol*)

Tywydd gwell ☐
Marchnata eich hun ☐
Busnes dychwel ☐
Adferiad economaidd ☐
Mwy o archebion trwy asiant ar-lein (e.e. booking.com) ☐
Wedi arwyddo fyny i asiantaeth newydd (hunan arlwyd) ☐
Argymhellion ☐
Cynnydd mewn twristiaeth ☐
Mwy o le / ystafelloedd ☐
Digwyddiadau yn yr ardal ☐
Ystafelloedd neu gyfleusterau gwell ☐
Mwy o bobl Prydain yn aros yn y DU ☐
Mwy o ymwelwyr tramor ☐
..... ☐
Ddim yn gwybod ☐
Arall ☐

Nodwch reswm / resymau eraill

- Q4 Pam fydddech chi'n dweud eich bod wedi cael llai o ymwelwyr? (*Paid a annog, ticiwch bob un perthnasol*)
- Tywydd ☐
- Ddim wedi hyrwyddo'r busnes / busnes dirwyn i lawr ☐
- Problemau annisgwyl ☐
- Hinsawdd economaidd ☐
- Cystadleuaeth gref ☐
- Twristiaeth wedi gostwng yn yr ardal ☐
- Llai o ymwelwyr tramor ☐
- Llai o bobl Prydain yn mynd ar wyliau yn y DU ☐
- Ddim yn gwybod ☐
- Arall ☐
- Nodwch reswm / resymau eraill _____
-
- Q5 Hyd yn hyn eleni, sut mae eich proffidioldeb ar y cyfan o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd?
- I fyny ar y llynedd ☐
- Tua'r un peth a llynedd ☐
- I lawr ar y llynedd ☐
- Ddim yn gwybod / well gen i ddim dweud ☐
- Q6 *Cyfwelydd: cofnodi'r holl sylwadau defnyddiol ar berfformiad hyd yma / haf yma.*
-
- Q7 Wrth edrych ymlaen i weddill y flwyddyn, sut ydych yn disgwyl nifer eich ymwelwyr i gymharu â'r un cyfnod y llynedd?
- I fyny ar y llynedd ☐
- Tua'r un peth a llynedd ☐
- I lawr ar y llynedd ☐
- Ddim yn gwybod ☐
- Q8 Ar y cyfan, pa mor hyderus ydych chi am weddill y flwyddyn?
- Hyderus iawn ☐
- Eithaf hyderus ☐
- Ddim yn hyderus iawn ☐
- Ddim yn hyderus o gwbl ☐
- Ddim yn gwybod ☐
- Q9 *Cyfwelydd: cofnodi'r holl sylwadau defnyddiol ar ddisgwyliadau am weddill y flwyddyn*
-
- Q10 Ydych chi'n ymwybodol o flynyddoedd thema Croeso Cymru, megis Blwyddyn Antur (y llynedd) a Blwyddyn y Chwedlau (eleni)? (*Ticiwch bob un perthnasol*)
- Blwyddyn Antur ☐
- Blwyddyn y Chwedlau ☐
- Dim un o'r uchod ☐

Q11 OS YMWHYBODOL I UNRHYW THEMA YN C10

Sut glywsoch chi am y blynyddoedd thema? (*Annog os oes angen*)

- Teledu neu hysbysebu arall i Gymru ☐
- E-bost neu gylchlythyr Croeso Cymru ☐
- Cyfryngau cymdeithasol ☐
- Busnesau twristiaeth eraill ☐
- Mynychu digwyddiad diwydiant twristiaeth neu sioe deithiol ☐
- Gwybodaeth ar wefan Croeso Cymru ☐
- Gwybodaeth gan fy nghymdeithas twristiaeth leol neu'r awdurdod lleol ☐
- Darllen y Canllaw Diwydiant a gynhyrchwyd gan Croeso Cymru ☐
- Deunyddiau hyrwyddo printiedig eraill ☐
- Cwsmeriaid ☐
- ☐
- ☐
- Methu cofio ☐
- Arall ☐
- Nodwch reswm / resymau eraill

Q12 A wnaethoch chi ymgymryd ag unrhyw weithgaredd ychwanegol neu benodol i gyd-fynd â Blwyddyn Antur neu'r Flwyddyn y Chwedlau? (*Os oeddent yn ymgymryd â gweithgareddau ychwanegol, annog am ba rai*)

- Do - Blwyddyn Antur ☐
- Do - Blwyddyn y Chwedlau ☐
- Naddo ☐

Q13 OS 'DO' AR C12

Pa weithgaredd ychwanegol neu benodol a wnaethoch chi ymgymryd? (*Annog os oes angen*)

- Dweud wrth fy nghwsmeriaid am y thema ☐
- Cynhyrchu gwybodaeth benodol i ymwelwyr ☐
- Negeseuon wedi'u cynnwys yn fy nwyddau marchnata/ gwefannau fy hun ☐
- Cynnwys y brandio / baneri digidol a gyflenwir gan Croeso Cymru ar fy deunyddiau hyrwyddo fy hun ☐
- Trefnu digwyddiad neu weithgaredd arbennig i gyd-fynd â'r thema ☐
- Wedi cymryd rhan mewn digwyddiad arbennig, gweithgaredd neu ddrychafiad a drefnir gan eraill i gyd-fynd â'r thema ☐
- Arall ☐
- Nodwch reswm / resymau eraill

Q14 OS NA I C12

Pam na wnaethoch chi ymgymryd ag unrhyw weithgaredd ychwanegol neu benodol? (**PEIDIWCH A DARLLEN ALLAN**)

- Doedd gen i ddim amser ☐
- Nid yw'r themâu yn berthnasol i fy musnes ☐
- Nid oedd gennyf ddigon o rybudd ☐
- Doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w wneud ☐
- Busnes dirwyn i lawr ☐
- Nid oedd angen - hapus â'r busnes fel y mae ☐
- Arall ☐
- Nodwch reswm / resymau eraill

Q15 OS YMWHYBODOL I UNRHYW THEMA YN C10

I ba raddau ydych chi'n teimlo bod eich busnes wedi elwa o Flwyddyn Antur neu Flwyddyn y Chwedlau?

- Effaith cadarnhaol iawn ☐
- Effaith eithaf cadarnhaol ☐
- Nid yn gadarnhaol nac yn negyddol ☐
- Effaith eithaf negyddol ☐
- Effaith negyddol iawn ☐

Q16 OS CADARNHAOL NEU EITHAF CADARNHAOL

Ym mha ffordd (au) y mae eich busnes wedi elwa? **(PEIDIWCH A DARLLEN ALLAN)**

- Mwy o ymwelwyr ☐
- Ymwelwyr yn aros yn hirach ☐
- Ymwelwyr yn mwy bodlon ☐
- ☐
- Arall ☐
- Nodwch reswm / resymau eraill _____

Q17 PAWB

Ydych chi'n gwybod bod 2018 yn Flwyddyn y Môr?

- Ydw ☐
- Nac ydw ☐

Q18 OS YN YMWHYBODOL

Pa weithgaredd, os o gwbl, ydych chi'n bwriadu ei wneud, neu rydych chi'n awyddus i'w wneud ar gyfer Blwyddyn y Môr? **(Annog os oes angen)**

- Cynhyrchu gwybodaeth benodol i ymwelwyr ☐
- Cynnwys negeseuon mewn deunyddiau marchnata / gwefan ☐
- Cynnwys y brandio/ baneri digidol ar ddeunyddiau hyrwyddo ☐
- Trefnu digwyddiad arbennig neu weithgaredd i gyd-fynd â'r thema ☐
- Cymryd rhan mewn digwyddiad arbennig, gweithgaredd neu ddyrchafiad a drefnir gan eraill i gyd-fynd â'r thema ☐
- ☐
- Dim byd ☐
- Arall ☐
- Nodwch reswm / resymau eraill _____

Q19 OS DIM I C18

Pam ddim? **(Peidiwch a darllen allan)**

- Ni fydd yn cael yr amser ☐
- Ddim yn berthnasol i fy busnes ☐
- Ddim yn gwybod beth i'w wneud ☐
- Nid wyf yn credu y bydd o fudd i fy busnes ☐
- Busnes dirwyn i lawr ☐
- Nid oes angen - hapus â'r busnes fel y mae ☐
- Arall ☐
- Nodwch reswm / resymau eraill _____

- Q20 Nodwch unrhyw sylwadau defnyddiol ar y blynyddoedd thema, yr hyn maen nhw'n ei wneud a sut maent wedi elwa
-
- Q21 Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio lleoliad eich busnes orau? (Darllen allan)
- Yn, neu yn agos i dinas neu dref fawr ☐
- Yn, neu yn agos i dref fechan..... ☐
- Yn cefn gwlad ☐
- Ger lan y môr ☐
- Q22 A yw eich busnes wedi'u graddio neu wedi'u hachredu gan Croeso Cymru / Visit Wales?
- Do ☐
- Naddo ☐

Diolch i chi am eich amser

- Region Region of Wales
- North..... ☐
- Mid ☐
- South West..... ☐
- South East..... ☐

Company

- LA LA
- Blaenau Gwent ☐
- Bridgend..... ☐
- Caerphilly ☐
- Cardiff ☐
- Carmarthenshire..... ☐
- Ceredigion..... ☐
- Conwy..... ☐
- Denbighshire..... ☐
- Flintshire ☐
- Gwynedd..... ☐
- Isle of Anglesey ☐
- Merthyr Tydfil ☐
- Monmouthshire ☐
- Neath Port Talbot ☐
- Newport ☐
- Powys..... ☐
- Pembrokeshire..... ☐
- Rhondda Cynon Taf..... ☐
- Swansea ☐
- Torfaen ☐
- Vale of Glamorgan..... ☐
- Wrexham..... ☐